# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1105(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 3 Gorffennaf 2008

**At Nick Bourne:**

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl ein dadl yn sesiwn Holi'r Prif Weinidog ar 17 Mehefin. Rwy'n ysgrifennu i gywiro'r datganiad a wnaed gennych am ganolrif amserau aros.

Rwyf wedi cael gwybod mai sôn yn benodol am amser aros cleifion mewnol/achosion dydd y mae'r canolrif, ac nid yw'n cynnwys amser aros y claf fel claf allanol. Yn ogystal, hoffwn gywiro'ch datganiad mai 44 o ddiwrnodau yw'r canolrif amser aros yn Lloegr. Sôn y mae'r canolrif hwn am gleifion o Gymru sy'n cael triniaeth mewn ymddiriedolaethau yn Lloegr, ac nid am gleifion ymddiriedolaethau Lloegr yn gyffredinol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, holl Aelodau'r Cynulliad a Swyddfa Arweinydd y Tŷ.